**CYNGOR SIR FYNWY**

**Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu**
**Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir The Council Chamber, County Hall, Rhadyr, Usk NP15 1GA**
**Dydd Mawrth, 13eg Mehefin, 2017 at 10.00 am**

**MYNYCHWYR:** Y Cynghorydd Sir P. Pavia (Cadeirydd)

Y Cynghorydd Sir: D. Blakebrough, J. Becker, A. Davies, D. Dovey, R. Roden, B. Strong, V. Smith

**MYNYCHWYR:**

| | |
|---|---|
| Cath Fallon | Head of Economy and Enterprise |
| Ian Saunders | Head of Tourism, Leisure and Culture |
| Hannah Jones | Youth and Community Officer |
| Liz Williams | Senior Management Accountant |
| Philip Thomas | Development Services Manager |
| Hazel Ilett | Scrutiny Manager |
| Richard Williams | Democratic Services Officer |

**YMDDIHEURIADAU:**

Y Cynghorydd Sir M. Feakins

1. **Nodi penodiad Cadeirydd y Pwyllgor Dethol.**

Nodwyd penodiad Y Cynghorydd Sir P. Pavia fel Cadeirydd y Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu.

2. **Ethol Is-gadeirydd.**

Penodasom Y Cynghorydd Sir D. Blakebrough fel Is-gadeirydd y Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu.

3. **Datganiadau o Fuddiant**

Datganodd Y Cynghorydd Sir A. Davies fuddiant nad yw'n rhagfarnu yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau parthed eitem 9 ar yr agenda – Monitro Datganiad Alldro Refeniw a Chyfalaf 2016/17, am ei fod yn llywodraethwr Ysgol Gynradd Castle Park, Cil-y-coed.

Datganodd Y Cynghorydd Sir D. Dovey fuddiant nad yw'n rhagfarnu yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau parthed eitem 9 ar yr agenda – Monitro Datganiad Alldro Refeniw a Chyfalaf 2016/17, am ei fod yn llywodraethwr Ysgol Cas-gwent.

Datganodd Y Cynghorydd Sir P. Pavia fuddiant nad yw'n rhagfarnu yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau parthed eitem 9 ar yr agenda – Monitro Datganiad Alldro Refeniw a Chyfalaf 2016/17, am ei fod yn llywodraethwr Ysgol Gynradd Eglwys Babyddol y Santes Fair, Cil-y-coed.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu**
**Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir The Council Chamber, County Hall, Rhadyr, Usk NP15 1GA**
**Dydd Mawrth, 13eg Mehefin, 2017 at 10.00 am**

Datganodd Y Cynghorydd B. Strong fuddiant nad yw'n rhagfarnu yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau parthed eitem 9 ar yr agenda – Monitro Datganiad Alldro Refeniw a Chyfalaf 2016/17, am ei fod yn llywodraethwr ysgol.

4. **Fforwm Agored i'r Cyhoedd.**

Ni chodwyd unrhyw faterion.

5. **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol**

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu dyddiedig 6ed Ebrill 2017 ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

6. **Cyflwyniad ar gyfer Trosolwg Menter.**

Derbyniodd y Pwyllgor Dethol gyflwyniad lle darparwyd trosolwg o weithgareddau'r Gyfarwyddiaeth Fenter.

**Craffu Aelodau :**

- Swyddi sgiliau uchel mewn gweithgynhyrchu - Cydnabuwyd bod angen i'r Gyfarwyddiaeth wneud mwy i annog cwmnïau gweithgynhyrchu sgiliau uchel i sefydlu yn Sir Fynwy. Yn ne-ddwyrain y sir, gyda'r gostyngiad yn nhollau Pont Hafren, derbynnir mwy o ymholiadau yn gofyn am fwy o lefydd diwydiannol yn y rhan hon o'r Sir. Mae'r Awdurdod ar hyn o bryd yn alinio'i strategaeth fuddsoddi gyda'r gwaith a gyflawnir parthed y Fargen Ddinesig gyda'r bwriad o dderbyn yr effaith fwyaf o hyn.

- Mae oddeutu 4300 o ficrofusnesau wedi'u lleoli yn y Sir sy'n tueddu i gyflogi llai na 19 cyflogai i bob busnes. Dan feini prawf cyfredol cronfeydd strwythurol Ewropeaidd, nid yw'r busnesau hyn yn gallu derbyn grantiau ond gyda Brexit, bydd y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yn gwasgaru a gobeithir y cânt eu disodli gan rywbeth mwy ffafriol i Sir Fynwy.

- Mae cysylltedd band eang yn fater sydd angen mynd i'r afael ag ef yn Sir Fynwy a bydd yn gymorth i fusnesau bach yn ogystal.

- Cynhyrchir y Cynllun Gweithredu Amaeth-Ddinesig ym Medi neu Hydref 2017 gyda'r bwriad o edrych ar ffyrdd o ddenu cyllid ychwanegol i ardaloedd allweddol.

- Mae 20% o'r boblogaeth yn defnyddio cyfleusterau hamdden. Mae cyfle aruthrol o fewn Sir Fynwy i ymgorffori ac uno gwasanaethau gyda'i gilydd gyda'r bwriad o gadw'n heini. Mae gweithio gyda phartneriaid allweddol yn hanfodol i ddarparu darpariaeth hamdden briodol ac annog pob dinesydd i gymryd rhan mewn ystod

amrywiol weithgareddau mewn ffordd hwylus a pherthnasol er mwyn cynnal a gwella ffitrwydd.

- Mae busnesau wedi defnyddio Hilston Park ar gyfer digwyddiadau hyfforddiant corfforaethol, Mae angen i'r Awdurdod fwyafu'i asedau i ddatblygu ymhellach y math hwn o gyfle.

- Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd mewn perthynas â busnesau newydd yn Ne-ddwyrain Cymru, nodwyd yr edrychir ar astudiaeth benodol mewn perthynas â De-ddwyrain Sir Fynwy, yn enwedig yn nhermau ardaloedd sector twf arbenigol. Cynigir gwasanaethau priodol i gwmnïau sy'n edrych am adleoli i Sir Fynwy, a chefnogaeth un i un yn aml yw'r hyn sydd ei angen ar y cwmnïau hyn. Bydd strategaeth mewnfuddsoddiad yr Awdurdod a chynnig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn gymorth yn natblygiad y Sir. Mae gan yr Awdurdod wefan benodol i hyrwyddo datblygiad Sir Fynwy www.monmouthshire.biz <http://www.monmouthshire.biz>. Parthed sgiliau, mae Swyddogion yn gweithio i ddylanwadu ar gyfleoedd. Cymerir datblygu menter ieuenctid ac entrepreneuriaeth ieuenctid o ddifrif. Fodd bynnag, ymgymerir â hyn o fewn capasiti a chyllideb i gymryd rhagddo ddatblygiad busnes y Sir. Gallai'r Awdurdod gael effaith fwy ar ddatblygiad busnes â mwy o adnoddau yn eu lle.

- Mae fframweithiau rhanbarthol a chenedlaethol yn bodoli lle cynhelir nifer o gyfarfodydd a digwyddiadau dal i fyny ar hyd y flwyddyn yn cynnwys cynrychiolwyr ar ran Llywodraeth Cymru a phartneriaid. Felly, mae strwythur dda iawn yn ei lle i gyflenwi'r wybodaeth ddiweddaraf. Yn fewnol, mae gan y Gyfarwyddiaeth gyfarfodydd ei Thîm Rheoli Adrannol, ynghyd â chael ei chynlluniau gwasanaeth. Mae'r Byrddau gwasanaeth cyhoeddus a'r partneriaethau'n cynhyrchu deilliannau a chanlyniadau da ac maent yn canolbwyntio ar feysydd allweddol. Sefydlwyd rhwydweithiau rhanbarthol parthed y Fargen Ddinesig a rhwydweithiau cefnogi busnes. Mae Tîm y Rhaglen Datblygu Gwledig yn rhwydweithio gyda thimoedd eraill ar draws Cymru. Digwydd gweithio trawsffiniol ar brosiectau hefyd. Parthed microfusnesau, darperir gwasanaeth priodol un i un.

- Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd mewn perthynas â blaenoriaethau'r Gyfarwyddiaeth, nodwyd y pwyntiau canlynol:

  - Seilwaith band eang a'r modd yr eir i'r afael â hyn.
  - Codi Proffil Mewnfuddsoddiad y Sir.
  - Mwyafu'r ffrydiau cyllido.
  - Prentisiaethau a Hyfforddiant.
  - Cyfeiriad strategol Ymgysylltu â'r Gymuned a'r Cynllun ar Raddfa Lle Cyfan.

- Mae'r raddfa wirfoddoli yn Sir Fynwy ar 63%, sef yr uchaf yng Nghymru.

- Mae gwaith i'w wneud ar y modd mae un yn mesur economi iach.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu**
**Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir The Council Chamber, County Hall, Rhadyr, Usk NP15 1GA**
**Dydd Mawrth, 13eg Mehefin, 2017 at 10.00 am**

- Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd mewn perthynas â chyfleoedd a gollwyd o ganlyniad i gyfyngiadau'r gyllideb, nodwyd y byddai'r Gyfarwyddiaeth wedi hoffi bod mewn gwell sefyllfa i hyrwyddo Sir Fynwy gyda'r gostyngiad mewn tollau i Bont Hafren. Fodd bynnag, nawr yw'r amser i fynd rhagddo â'r gwaith.

- Parthed pwerdy'r Great Western City, bu trafodaethau parhaus ers cryn amser ar lefel wleidyddol a gweithredol. Mae cyfleoedd da i Sir Fynwy weithio ar draws y ffiniau.

- Gwyddoniaeth Technoleg Peirianneg a Mathemateg (STEM) - Mae'r Gyfarwyddiaeth yn ymwybodol o'r cyfleoedd. Mae'n help fod gennym yr arweiniad parthed arloesedd busnes a rhwydweithiau digidol parthed Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Mae'r Gyfarwyddiaeth yn gweithio yn y rhwydweithiau hyn ond yw'r llwybrau ar gyfer myfyrwyr hyd yn hyn mor glir ag y gallent fod.

- Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd, nodwyd bod pêl-droed cerdded yn cael ei chwarae yng Nghil-y-coed sydd wedi bod yn llwyddiannus iawn. Y nod yw hyrwyddo hyn ar draws y Sir.

- Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd ynghylch TIC Cas-gwent, nodwyd bod gan y TIC gyllideb ar gyfer y flwyddyn hon i sicrhau y bydd yn parhau ar agor am y flwyddyn. Daeth peth arian grant i law ac mae datblygu cynnyrch wedi bod yn broses barhaus. Bydd yn rhaid wrth waith mewn partneriaeth a newid i'r model presennol i greu cynnyrch mwy cyson, cynaliadwy.

- Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd, nodwyd bod gan BT darged cwmpas o 95%ar gyfer darpariaeth band eang ar draws Rhaglen Cyflymu Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi newydd ymgymryd ag adolygiad marchnad agored i'w galluogi i ddarganfod lle mae'r eiddo sy'n anodd eu cyrraedd a disgwylir canlyniadau'r dadansoddiad hwn. Bydd y canlyniadau hyn wedyn yn sylfaen ar gyfer rhaglen dreigl Cyflymu Cymru 2 sy'n debygol o fod yn ffeibr i'r adeilad yn hytrach na ffeibr i'r blychau. Fodd bynnag, bydd yn debygol o gymryd yn hwy i dreiglo'r rhaglen hon ond fe fydd yn wasanaeth cyflym iawn.

- Yn y cyfamser mae'r Gyfarwyddiaeth wedi bod yn edrych ar gynlluniau peilot arloesol. Llwyddiant cyfyngedig gafodd llinell welediad y peilot radio gan fod yn rhaid i'r signal gael pwynt uniongyrchol i gyfeirio gweledíad er mwyn derbyn cysylltiad. Mae cynllun peilot arloesol arall yn defnyddio gofod gwyn Teledu gan ddefnyddio signalau analog i gludo'r band eang. Mae'r canlyniadau cychwynnol yn gadarnhaol iawn, gan y bydd y signalau hyn yn mynd drwy wrthrychau solet gan ganiatáu gwell cysylltiad.

- Yn y cyfamser, mae'r Awdurdod yn lobïo Llywodraeth Cymru I fynd i'r afael â'r diffyg mewn darpariaeth band eang a'r angen am dreiglo Cyflymu Cymru 2 i gychwyn cyn gynted â phosib o fewn y Sir.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu**
**Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir The Council Chamber, County Hall, Rhadyr, Usk NP15 1GA**
**Dydd Mawrth, 13eg Mehefin, 2017 at 10.00 am**

- Cynhelir cyfarfod diweddariad yn cynnwys Aelodau'r Cabinet a Swyddogion gyda BT a Llywodraeth Cymru yn gynnar yng Ngorffennaf 2017. Cyflwynir adroddiad diweddariad ar gynnydd i'r Pwyllgor Dethol.

- Gwnaed cais i BT am fap yn darparu dosbarthiad band eang ar draws y Sir.

- Cyflwynir adroddiad parthed y ffigurau STEAM i'r Pwyllgor Dethol i'w archwilio ym Medi / Hydref 2017.

- Parthed cymorth i fusnesau ac ardrethi busnes, cyn belled ag y mae a wnelo'r Fargen Ddinesig, edrychir ar strategaeth ranbartholedig ar gyfer cyflenwi cymorth i fusnesau ond gyda swyddogaeth gyflenwi leoledig. Un agwedd yn unig yw'r Fargen Ddinesig. Mae rhwydweithiau'r Awdurdod yn eang, yn gweithio gyda chwmnïau arloesol, ynghyd â nifer o gwmnïau eraill. Hyrwyddir y Sir yn ogystal drwy gyfrwng cyfryngau cymdeithasol.

- Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd ynghylch sgiliau, yr hyn oedd Coleg Gwent a'r Prifysgolion yn ei wneud oedd cwrdd ag anghenion cyflogaeth y dyfodol, Nodwyd bod angen bod yn ymwybodol o Adolygiad Donaldson a gweithredu hwn ar ysgolion Sir Fynwy. Hefyd, mae partneriaeth dysgu sgiliau rhanbarthol a chyflawnwyd ymchwil gyda cholegau a phrifysgolion ynghylch beth yw angen y dyfodol..Mae angen i'r Awdurdod gadarnhau fel y bydd hyn yn effeithio ar Sir Fynwy ar lefel leol.

- Hysbysodd y Rheolwr Craffu'r Pwyllgor fod e-bost wedi'i anfon allan i'r holl Aelodau ynghylch y Cynllun Rheoli Cyrchfannau Twristiaid yn eu hatgoffa fod dal cyfle i gyfrannu at hyn. Dygir y cynllun drafft i gyfarfod y Pwyllgor Dethol ar 19eg Hydref 2017. Bydd cyfarfod Gorffennaf yn derbyn adroddiad i'w archwilio mewn perthynas â darpariaeth TGCh mewn ysgolion a STEM.

- Mewn perthynas â Chynllun Datblygu Lleol y Cyngor (CDLl) a'r cynnydd araf i ddwyn ymlaen y safleoedd tai strategol a neilltuwyd yn y CDLl (sy'n golygu nad oes gan y Cyngor gyflenwad pum mlynedd o dir ar gyfer tai). Mae'r cynllun i gael ei adolygu a rhagwelwyd y bydd peth o'r diffyg hwn yn cael ei ddatrys dan yr adolygiad. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd yr Adran Gynllunio'n derbyn ceisiadau cynllunio ar safleoedd na neilltuwyd, nad ydynt yn y CDLl, y bydd yn rhaid eu penderfynu ar eu haeddiant yn aros am adolygiad y CDLl.

**<u>Casgliad y Pwyllgor</u>**

- Bod rhestr o destunau a dafodwyd yng nghyfarfod heddiw yn cael eu cynhyrchu gyda'r bwriad o drafod sut i fynd rhagddo â datblygu blaenraglen waith.

- Craffu adroddiad yng nghyfarfod y Pwyllgor Dethol yng Ngorffennaf 2017 ynghylch darpariaeth TGCh mewn ysgolion a STEM.

- Cynhelir cyfarfod diweddariad yn cynnwys Aelodau'r Cabinet a Swyddogion gyda BT a Llywodraeth Cymru yn gynnar yng Ngorffennaf 2017. Cyflwynir adroddiad diweddariad ar gynnydd i'r Pwyllgor Dethol mewn cyfarfod yn y dyfodol. .

7. **Menter Ieuenctid – Rhaglenni Cronfa Strwythurol Ewropeaidd (CSE) – Estyniad - INSPIRE2WORK**

**Cyd-destun:**

Yn dilyn cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer gweithredu rhaglen Inspire2Work (I2W) ym Mawrth 2016, mae Menter Ieuenctid yn gofyn mewn egwyddor am gefnogaeth i arian cyfatebol ychwanegol o gronfeydd wrth gefn yr Awdurdod. Bydd yr arian hwn yn galluogi cyflenwad ehangach o'r rhaglen I2W bresennol sy'n darparu cefnogaeth wedi 16, ymyrraeth a chyfleoedd cyflogaeth gan ddefnyddio arian y Gronfa Strwythurol Ewropeaidd (CSE).

**Materion Allweddol:**

- Cymeradwywyd y rhaglen I2W gyfredol ar gyfer pobl 16-18 oed gan y Cabinet ym Mawrth 2016 am dair blynedd ar gyfanswm cost y prosiect o £381,601 a rennir rhwng 55% CSE o £171,720 ac arian cyfatebol Cyngor Sir Fynwy o £209,881.

- Yn dilyn y gymeradwyaeth derfynol ohiriedig o'r rhaglen yn Chwefror 2017, mae un o bartneriaid gwreiddiol y prosiect, Cartrefi Melin, wedi tynnu nôl o'r prosiect. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r Awdurdod estyn ei raglen o'r ddarpariaeth bresennol y tu hwnt i bobl 16-18 oed i 16-24 oed.

- Mae Aelodau'n flaenorol wedi cael eu gwneud yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi gweithredu Fframwaith Ymgysylltu ag Ieuenctid a Datblygiad 2013, sy'n darparu model cyflenwi yn canoli ar anghenion pobl ifanc gan ddynodi chwe phrif faes ar gyfer gwireddu gwell canlyniadau i bobl ifanc. Gwireddir egwyddorion y fframwaith yn y rhaglen I2W ac fe'u dylunnir i sicrhau gwerth ychwanegol tra adlewyrchant ar yr un pryd anghenion a dyheadau pobl ifanc Sir Fynwy a Chynllun Integredig Sengl yr Awdurdod.

**Craffu Aelodau:**

- Mae oddeutu 50 o bobl ifanc 16 – 18 oed Heb Fod mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant (NEET). Fodd bynnag, gall pobl ifanc ddod mewn ac allan o hyn fel meant yn datblygu.

- Mae 40 o bobl ifanc 18 – 24 oed ar hyn o bryd yn hawlio Lwfans Ceisio Gwaith.

- Caiff data eu monitro'n barhaus gan mai'r rhain yw'r bobl ifanc sydd fwyaf anodd eu cyrraedd. Mae angen tudalennau pwrpasol o gefnogaeth h.y. gallai fod angen ymyrraeth, bach neu fawr, yn dibynnu ar anghenion yr unigolyn.

- Cynhelir trafodaethau gyda'r awdurdod arweiniol, Cyngor Dinas Casnewydd, ynghylch gosod targedau,

- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch cynlluniau tebyg a gafodd eu gweithredu, nodwyd bod tri chontract wedi cael eu rhedeg ddwy flynedd yn ôl gyda Chanolfan Byd Gwaith ac maent yn eiddgar i atgyfodi'r gwaith hwn eto gan gydlynu gyda chysylltiadau lleol a'r Ganolfan Waith.

- Deilliannau i dystio i lwyddiant y prosiect - – 33% Addysg, 22% i mewn i gyflogaeth a 18% i mewn i hyfforddiant. Mae deilliannau'n cael eu gwireddu.

- Ymchwilir i bob llwybr ym maes prentisiaethau gyda chysylltiadau yn lleol ynghyd ag yn genedlaethol. Y nod yw torri mewn i'r farchnad busnesau lleol ac rydym mewn sefyllfa dda i adeiladu cysylltiadau cyflogadwyedd. Cynhelir trafodaethau gydag ysgolion yn y dyfodol.

- Edrychir hefyd ar ddiddordebau a phrofiadau pobl ifanc, ynghyd ag anelu at adeiladu hyder a datgloi'r potensial sydd mewn pobl ifanc.

- Am fod y gwasanaeth yn bwrpasol, bydd y tîm yn cwrdd ag unigolion yn eu hardal. Awdurdod gwledig yw Sir Fynwy ac felly nid yw bob amser yn rhwydd i bobl ifanc gyrchu gwasanaethau.

- Mae cydbwysedd rhwng y rhywiau yn y rhaglen a gosodwyd targedau rhywedd. Mae hwn yn brosiect tair blynedd a bu trafodaethau eisoes gyda'r bwriad o adnabod o ble daw cyllid yn y dyfodol. Cynhelir cyfarfod gyda Llywodraeth Cymru yn hwyrach heddiw i drafod yr agenda cyflogadwyedd.

**<u>Casgliad y Pwyllgor</u>**

Penderfynasom gefnogi Penderfyniad Unigol Aelod Cabinet i ryddhau arian cyfatebol ychwanegol am y tair blynedd nesaf yn Ionawr 2020, gan alluogi 120 ychwanegol o gyfranogwyr ar draws ystod oedran estynedig o 18-24 oed. Bydd y cyllid yn galluogi ehangu'r tîm presennol o gynnwys Swyddog Cyflogadwyedd a chyfle ar gyfer prentisiaeth weinyddol. Bydd dyletswyddau'r Swyddog Cyflogadwyedd yn cael eu hehangu ar gyfer rhaglenni eraill ar draws ffrydiau cyllid ychwanegol ar sail taflenni amser.

8. **<u>Datganiad All-dro 2016/17 Monitro Refeniw a Chyfalaf.</u>**

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu**
**Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir The Council Chamber, County Hall, Rhadyr, Usk NP15 1GA**
**Dydd Mawrth, 13eg Mehefin, 2017 at 10.00 am**

**Cyd-destun :**

Derbyn gwybodaeth ar sefyllfa refeniw alldro'r Awdurdod ar ddiwedd cyfnod 4 sy'n cynrychioli'r sefyllfa ariannol alldro ar gyfer blwyddyn 2016/17.

**Argymhellion a gynigir i'r Cabinet:**

- Bod Aelodau'n ystyried tanwariant refeniw net alldro o £884,000, gwelliant o £805,000 ar ragfynegiadau alldro chwarter 3.

- Bod Aelodau'n ystyried gwariant cyfalaf alldro o £40.03 miliwn yn erbyn cyllideb ddiwygiedig o 40.98 miliwn, wedi llithriad arfaethedig o £17.5 miliwn, gan arwain at danwariant net o £951,000.

- Ystyried a chymeradwyo llithriad cyfalaf a argymhellwyd o £17.5 miliwn, gan dalu sylw i'r cynlluniau hynny a ddisgrifir ym mharagraff 3.3.6 o'r adroddiad lle gwnaed cais am lithriad gan y rheolwr gwasanaeth ond nad yw'n cael ei argymell i lithro (£198,000).

- Mae'n ystyried y defnydd o gronfeydd wrth gefn a gynigir ym mharagraff 3.4.1 o'r adroddiad.

- Mae'n cefnogi rhannu'r tanwariant cyffredinol i ategu lefelau'r cronfeydd wrth gefn fel y disgrifir isod, h.y.:

| | |
|---|---|
| Cronfa Buddsoddi â Blaenoriaeth | £570,000 |
| Dileu swydd & Chronfa Bensiwn wrth Gefn | £114,000 |
| Cronfa wrth Gefn Trawsnewid TG | £100,000 |
| Cronfa Wrth Gefn Cynhyrchu Derbyniadau Cyfalaf | £100,000 |
| | |
| Cyfanswm | £884,000 |

- Mae Aelodau'n nodi y bydd y lefel isel o gronfeydd wrth gefn a glustnodir yn lleihau'n sylweddol yr hyblygrwydd sydd gan y Cyngor I gwrdd â heriau adnoddau prin yn y dyfodol.

- Mae Aelodau'n nodi'r gostyngiad arwyddocaol yng ngweddill cyffredinol cyllideb ysgolion ar ddiwedd 2016/17 ac yn cefnogi'r gwaith parhaus gydag ysgolion i sicrhau y cyfarfyddir â gofynion Cynllun Ariannu Tecach y Cyngor ac y bydd gweddill cyffredinol ysgolion yn dal yn gadarnhaol yn 2017/18.

**Craffu Aelodau :**

- Mae'r arian wrth gefn a glustnodir yn aros ar lefelau cyfyngedig wedi gostwng o £17,536,000 yn 2015/16 i ragfynegiad alldro o £12,958,000 yn 2017/18.

- Cynnydd mewn Arbedion 2016/17 – Canfuwyd bod pwysau ychwanegol ar gyllideb eisoes dan bwysau. Nodwyd bod y Gyfarwyddiaeth Fenter wedi gwneud 79% o'r arbedion ar ei hatodlen. Fodd bynnag, ni wireddwyd yr holl arbedion yn y flwyddyn a nodwyd bod yr arbedion yn cael eu cario drosodd i'r flwyddyn nesaf, gan greu pwysau ychwanegol ar gyllidebau.

- Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd ynghylch benthyca'r awdurdod lleol nodwyd na fyddai'r awdurdod yn gallu benthyca mwy o arian nag y caniateid iddo wneud. Roedd y cyfraddau llog cyfredol ar fenthyca'n isel iawn.

- Mae chwe ysgol wedi arddangos sefyllfa o ddiffyg ar ddechrau 2016/17. Drwy gydol y flwyddyn rhagwelwyd bod y ffigwr hwn yn debygol o godi i 12 erbyn diwedd 2016/17. Ymchwilir gan y Rheolwr Ariannol wybodaeth mewn perthynas â'r sefyllfa reoli hirdymor yn yr achosion hyn ac adroddir nôl i'r Pwyllgor.

**Casgliad y Pwyllgor**

- Cefnogi'r argymhellion a gynigiwyd gan y Cabinet.

**9. Rhestr camau gweithredu yn deillio o gyfarfod blaenorol.**

Nodwyd rhestr y camau gweithredu'n codi o'r cyfarfod blaenorol.

**10. Blaenraglen Waith Craffu Economi a Datblygu.**

Hysbysodd y Rheolwr Craffu'r Pwyllgor bod angen datblygu blaenraglen waith y Pwyllgor Dethol a Chynllun Busnes y Cyngor a'r Cabinet.

Yng ngoleuni'r trafodaethau a gafwyd yng nghyfarfod heddiw, cytunodd y Pwyllgor y dylai'r Rheolwr Craffu a Swyddog o'r Gwasanaethau Democrataidd ddrafftio rhestr o'r pynciau a godwyd gyda'r bwriad o drefnu trafodaeth ar y rhaglen waith yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Dethol er mwyn blaenoriaethu'r pynciau y byddai'r Pwyllgor yn hoffi canolbwyntio arnynt.

Mewn perthynas â'r cyfarfod nesaf, gofynnwyd i'r Aelodau ystyried yr eitemau canlynol:

- Bu cais am adroddiad i'w gyflwyno i'r Pwyllgor ar ddarpariaeth TGCh mewn ysgolion.

- Adroddiad Enillion ar Fuddsoddiad ar gyfer y velothon, os yw'r adroddiad ar gael.

Ar gyfer yn hwyrach yn y flwyddyn yng nghyfarfod y Pwyllgor Dethol ar 19$^{eg}$ Hydref 2017, cyflwynir yr eitemau canlynol i'r Pwyllgor:

- Data STEAM

- Model Rheoli Cyrchfannau Twristiaeth.

Penderfynasom dderbyn y diweddariad a nodi'i gynnwys.

**11. Trafodaeth am amseriadau cyfarfodydd Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu yn y dyfodol.**

Penderfynasom y bydd Cyfarfodydd y Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu yn cael eu cynnal am 10.00am.

**The meeting ended at 12.25 pm**